Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

Ymchwiliad i Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach: Cylch Gorchwyl | Inquiry on the Impact of Brexit on Higher and Further Education

IB-09

Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg
Response from: Welsh Language Commissioner

# Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'ch ymchwiliad. Hoffwn bwysleisio'r pwyntiau canlynol.

- Mae'r sector addysg ôl-16 yn allweddol ar gyfer ffyniant y Gymraeg.
- Gallasai Brexit fod â goblygiadau economaidd amrywiol ar gyfer siaradwyr y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Gallasai'r goblygiadau hyn hefyd fod yn berthnasol iawn i'r sector addysg bellach ac uwch yng Nghymru.
- Dylid sicrhau nad yw effeithiau Brexit yn tanseilio'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer siaradwyr y Gymraeg yn y sector ôl-16 ar hyn o bryd a bod y cynlluniau ariannu a ddaw maes o law i gymryd lle cyllid Ewropeaidd yn cyfrannu'n gadarnhaol at y Gymraeg.
- Wrth i'r broses o ymadael â'r UE fynd yn ei flaen credaf ei bod yn hanfodol fod ei effeithiau posibl ar y Gymraeg yn derbyn sylw priodol ym mhob agwedd o waith y Llywodraeth gan gynnwys y sector ôl-16 er mwyn deall yn well pa effeithiau y gallasai eu cael ac i ystyried dulliau o liniaru'r effeithiau hynny.

## 1. Cyd-destun yr ymateb hwn

Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal,bydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau rhoddir dyletswyddau statudol ar sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Un o amcanion strategol y Comisiynydd yn ogystal yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a dyna a wneir yma. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Comisiynydd ar y wefan www.comisiynyddygymraeg.cymru

## 2. Y Gymraeg yn y sector addysg ôl-16

Mae'r sector addysg ôl-16 yn allweddol ar gyfer ffyniant y Gymraeg. I nifer, dyma'r cyfnod rhwng addysg statudol a'r gweithle lle gall nifer o ffactorau effeithio ar

benderfyniadau ac arferion ieithyddol unigolion. O'r herwydd, mae'n ganolog i'r ymdrech i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg a chreu gweithlu medrus dwyieithog. Er hynny, ar hyn o bryd mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn colli eu sgiliau Cymraeg ar ddiwedd cyfnod addysg statudol.

## 3. Effaith Brexit ar y Gymraeg

Nodais eisoes mewn ymatebion i Bwyllgorau'r Cynulliad y gallasai Brexit fod â goblygiadau economaidd amrywiol ar gyfer siaradwyr y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae cyllid Ewropeaidd yn cefnogi rhaglenni a gweithgareddau sydd â photensial i blethu buddion economaidd ac ieithyddol. Yn ogystal, mae'n cefnogi'r sectorau sy'n feysydd cyflogaeth pwysig i siaradwyr y Gymraeg ac yn cyfrannu at hyfywedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.[1]

Mae'r goblygiadau hyn yn berthnasol iawn ar gyfer y sectorau addysg bellach (AB) ac uwch (AU) yng Nghymru yn ogystal. Dylid sicrhau nad yw Brexit yn tanseilio'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer siaradwyr y Gymraeg yn y sectorau hyn ar hyn o bryd a bod cynlluniau ariannu a ddeuai maes o law i gymryd lle cyllid Ewropeaidd yn cyfrannu yn gadarnhaol at y Gymraeg.

## 4. Brexit a'r cyfleoedd ar gyfer siaradwyr y Gymraeg yn y sectorau AB ac AU

Mae cefnogaeth ariannol yr Undeb Ewropeaidd i'r sectorau AB ac AU yng Nghymru yn bellgyrhaeddol. Mae'r ffynonellau cyllido yn cynnwys Horizon 2020 i gefnogi ymchwil ac arloesi; Erasmus+ i gefnogi cyfnewidfa myfyrwyr a staff sy'n ymweld â sefydliadau addysgol tramor; a'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer rhaglenni hyfforddiant amrywiol. Yn ôl y Sefydliad Materion Cymreig, mae prifysgolion Cymru yn manteisio ar tua £35 miliwn o arian Ewropeaidd tuag at ymchwil pob blwyddyn.[2] Yn ôl Colegau Cymru, disgwylir y bydd Cymru yn derbyn buddsoddiad o dros £740 miliwn rhwng 2014 a 2020 trwy Gronfeydd Strwythurol Ewrop, gyda £320 miliwn o'r cyfanswm hwn tuag at wella sgiliau'r gweithlu. Nododd Colegau Cymru hefyd y clustnodwyd dros 4.25 miliwn ewro i sector addysg bellach yng Nghymru tuag at gynllun Erasmus+ rhwng 2011 a 2015.[3] Er nad yw cylch gorchwyl yr ymchwiliad presennol yn cwmpasu dysgu seiliedig ar waith, mae'n bwysig tanlinellu y cyflwynir prentisiaethau yng Nghymru dan nawdd ariannol yr Undeb Ewropeaidd hefyd.[4]

---

[1] Am ragor o fanylion gweler fy ymateb diweddar i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau 'Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel' (Hydref 2017); a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol 'Gwydnwch a pharodrwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit' (Tachwedd 2017)
[2] Sefydliad Materion Cymreig, 'What does Brexit mean for the future of Welsh universities?' (12 Mai 2017) http://www.iwa.wales/click/2017/05/brexit-mean-future-welsh-universities/
[3] Colegau Cymru, UE ac addysg a hyfforddiant ol-16: trosolwg (Gorffennaf 2016), http://www.collegeswales.ac.uk/Polisi
[4] https://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/?skip=1&lang=cy

Mae'r defnydd a wneir o'r Gymraeg mewn addysg ôl-16 yn gyffredinol yn isel.[5] Gan nad oes sicrwydd ar hyn o bryd am barhad y ffrydiau ariannu hyn mae risg y gallasai Brexit gyfyngu ar y cyfleoedd ariannol sydd gan sefydliadau addysgol yn y sector AB ac AU ar hyn o bryd gan, o ganlyniad, danseilio'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer siaradwyr y Gymraeg yn y sectorau hyn. Mae heriau sy'n unigryw i ddarpariaeth Gymraeg yn ogystal.[6] Oherwydd y niferoedd is yn gymharol sy'n debygol o ddilyn cyrsiau addysg uwch yn y Gymraeg mae modiwlau Cymraeg yn dueddol o gostio mwy y pen i'w cynnig. Dyma oedd dehongliad adroddiad gan y London School of Economics yn 2006 ar gyfer CCAUC. Er bod y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar y sefyllfa yn y sector AU, gellir tybio eu bod yn berthnasol hefyd i'r sector AB a DSW. Os felly, gallasai darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddioddef pwysau anghymesur os daw ffynonellau ariannu yn yr holl sectorau hyn yn brinnach.

## 5. Brexit ac economi lleol

Nodais yn gyson yn y gorffennol fod cydgysylltiad rhwng cryfder yr economi a hyfywedd cymunedau Cymraeg.[7] Mae'r sectorau AU ac AB yn gwneud cyfraniad pwysig at economi Cymru. Dadleuodd astudiaeth ar gyfer Prifysgolion Cymru ym mis Ionawr 2018 y creodd y sector AU yng Nghymru allbwn gwerth dros £5 biliwn a dros 49,000 o swyddi yn ystod 2015-16. Awgrymodd astudiaeth ar gyfer Colegau Cymru yn 2017 fod colegau AB yn cyfrannu £4biliwn at economi Cymru pob blwyddyn.

Os bydd diwedd ar ffrydiau ariannu Ewropeaidd ac na fydd ffrydiau ariannu eraill yn cymryd eu lle mae risg y gallasai Brexit niweidio effaith economaidd y sefydliadau addysgol ar gymunedau. Yn amlwg, mae'r pryderon hyn yn arbennig o berthnasol i ardaloedd Cymru lle mae canrannau o siaradwyr y Gymraeg yn draddodiadol uchel, ac sydd hefyd yn gartref i sefydliadau addysgol – e.e. siroedd Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin. Er hynny, gellir dadlau bod effaith economaidd y sefydliadau addysgol yn fuddiol i unrhyw gymuned Gymraeg, waeth beth fo'i maint.

## 6. Camau nesaf

Croesawais eisoes gydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod rhaid diogelu ardaloedd gwledig lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf rhag unrhyw effeithiau niweidiol Brexit ar y sector amaeth.[8] Wrth i'r broses o ymadael â'r UE fynd yn ei flaen credaf ei bod yn hanfodol fod ei effaith posibl ar y Gymraeg yn derbyn sylw priodol ym mhob agwedd o waith y Llywodraeth.

---

[5] Gweler Adroddiad 5 Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg am ddarlun cyffredinol o'r sefyllfa http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adroddiad%205-mlynedd%20-%205- year%20Report.pdf

[6] Gweler fy ymateb i Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru (Chwefror 2015); ac ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'System addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wedi'i diwygio' (Hydref 2017).

[7] Am ragor o fanylion gweler fy ymateb diweddar i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau 'Ymchwiliad i dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel' (Hydref 2017); a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol 'Gwydnwch a pharodrwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit' (Tachwedd 2017)

[8] *Cymraeg 2050:Miliwn o Siaradwyr* (2017), t. 62.

Credaf bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i effaith posibl Brexit ar y Gymraeg mewn sectorau eraill, megis y sector ôl-16 er mwyn deall yn well pa effeithiau y gallasai eu cael ac i ystyried dulliau o liniaru effeithiau negyddol posibl.